**CABINET**

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 17 Rhagfyr 2013 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Hamdden, Ieuenctid a Datblygu Gwledig; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad, David Smith, Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd, Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Bill Cowie, Meirick Davies, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Jason McLellan, Dewi Owens a David Simmons

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Cymunedol (RM), Cwsmeriaid (HW), Cyfarwyddwr corfforaethol: Moderneiddio a Lles (SE), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad (AS), Rheolwr – Swyddfa Rhaglenni Corfforaethol (KA), Pennaeth Amyglchedd (SP), Uwch Swyddog Gwastraff (AR), Pennaeth Addysg (KE), Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PMc), Rheolwr Rhaglen (JC), Rheolwr Gwasanaethau AD (CR) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

**CROESO**

Croesawodd yr Arweinydd bawb i'r cyfarfod.  Soniwyd bod disgyblion Ysgol Dinas Bran yn bresennol i arsylwi’r trafodion.

**DEISEB**

Cyflwynodd y Cynghorydd Martyn Holland ddeiseb i'r Arweinydd ar ran Cyngor Cymuned Llandegla yn gofyn i'r Cyngor gyflwyno terfyn cyflymder 20 mya diofyn yn Llandegla ar yr holl ffyrdd preswyl.  Cydnabu'r Arweinydd y ddeiseb gan nodi y byddai'n cael ei hanfon at y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol i'w hystyried.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Nid oedd unrhyw ddatganiad cysylltiad personol nac un sy'n rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2013.

***PENDERFYNWYD*** *bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2013 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir a'u llofnodi gan yr Arweinydd.*

## 5 YSGOL CLOCAENOG AC YSGOL CYFFYLLIOG

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams yr adroddiad yn manylu canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar ddyfodol Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog ac yn ceisio cefnogaeth i gyhoeddi'r cynigion statudol gofynnol i gau'r ddwy ysgol a chreu ysgol ardal newydd.

Derbyniodd yr aelodau gefndir y cynnig sy'n codi o'r adolygiad o ysgolion cynradd yn ardal Rhuthun er mwyn caniatáu buddsoddiad i wella cyfleusterau addysgol tra hefyd yn lleihau lefel gyffredinol y lleoedd dros ben. Roedd yr adroddiad yn ymwneud ag un o'r chwe chynnig a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 25 Mehefin 2013.

Yn ystod y drafodaeth eglurwyd oherwydd maint adolygiad Rhuthun bu'n rhaid cynnal y broses mewn camau a chyflwynwyd y cynnig hwn yn ystod y cam cyntaf oherwydd yr angen am hysbysiad statudol. Byddai cynigion pellach mewn cysylltiad ag ysgolion eraill yn cael eu cyflwyno ar yr adeg briodol yn y broses adolygu gyffredinol. Rhoddwyd sicrwydd nad oedd yr un cynnig wedi'i flaenoriaethu dros un arall a byddai gofynion ariannu yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ar yr un pryd. Roedd ymrwymiadau cyllido cyfredol, ynghyd â phrosiectau dangosol a chostau'r adolygiad wedi eu hatodi i'r adroddiad.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau a gofynnwyd am sicrwydd ynglŷn â gwahanol agweddau ar y cynnig. Cydnabu'r Cynghorydd Bobby Feeley yr anawsterau a'r gwaith helaeth ynghlwm wrth gynnal adolygiad ardal Rhuthun ond cwestiynodd hyfywedd y cynigion. Mynegodd amheuon ynghylch y cyfiawnhad dros gynigion penodol, gan amlygu nifer o feysydd sy'n peri pryder, a holodd am y rhesymeg y tu ôl i'r argymhellion a'r goblygiadau posibl ar gyfer ysgol newydd yn Rhuthun.

Cyflwynwyd yr ymatebion canlynol i faterion a godwyd gan aelodau -

- byddai cyllid ar gyfer cludiant ysgol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion i'r ysgol newydd tra'r oedd yn bodoli ar ddau safle
- roedd pryderon ynghylch addasrwydd y rhwydwaith ffyrdd wedi eu cydnabod ac ymdrechir i sicrhau bod ffyrdd yn glir ac yn flaenoriaeth ar gyfer graeanu
- Penderfynir ar gapasiti a nifer mynediad yn yr adeilad newydd fel rhan o'r broses ddylunio er mwyn sicrhau na grëwyd lleoedd dros ben sylweddol

- roedd y rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad i uno'r ddwy ysgol yn hytrach na ffedereiddio wedi eu manylu gyda'r ardal dalgylch eang; lleoliadau anghysbell, a niferoedd disgyblion yn y ddwy ysgol yn ffactorau perthnasol
- byddai'r model arfaethedig yn cryfhau'r ddarpariaeth addysgol a sicrhau bod disgyblion yn cael y cyfleoedd a darpariaeth cwricwlwm gorau posibl
- eglurwyd y broses gategoreiddio ar gyfer faint o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg gafodd ei chyflwyno o fewn ysgolion yn gyffredinol.

Mewn ymateb i gwestiynau yn ymwneud â chynigion ar gyfer ysgolion eraill yn ardal Rhuthun, rhoddodd swyddogion ddiweddariad ar gynnydd ac eglurwyd y rhesymeg y tu ôl i'r cynigion unigol yn seiliedig ar nifer o ffactorau sy'n berthnasol i'r ysgolion hynny. Cadarnhaodd y Cynghorydd Eryl Williams ei ymrwymiad i ysgol newydd yn Rhuthun ac addawodd i sicrhau y byddai ardal Rhuthun yn derbyn addysg a chyfleusterau o ansawdd o'r radd flaenaf o ganlyniad i'r broses adolygu.

Amlygodd y Cynghorydd David Smith natur gymhleth yr adolygiad a chefnogodd y cynnig ar gyfer dyfodol Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog i sicrhau addysg o ansawdd ar gyfer yr ardal. Ychwanegodd y Cynghorydd Hugh Irving ei gefnogaeth i'r cynnig er mwyn darparu'r addysg orau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Cydnabu'r Arweinydd bod angen gwneud penderfyniadau anodd gan bwysleisio cyfrifoldeb aelodau i sicrhau cynaliadwyedd a gwelliant mewn safonau addysg.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a) nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cau Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog ac agor ysgol ardal newydd ar y ddau safle presennol;*

*(b) cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i gau Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog ar 31 Awst 2014 ac agor ysgol ardal newydd ar y safleoedd presennol ar 1 Medi 2014, a*

*(c) chadarnhau'r ymrwymiad i weithio tuag at ddarparu ysgol ardal newydd ar un safle yn amodol ar argaeledd cyllid cyfalaf.*

Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley wedi ymatal rhag
pleidleisio ar y penderfyniad uchod.

## 6 STRATEGAETH Y PARTH CYHOEDDUS

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith yr adroddiad yn ceisio cadarnhad y Cabinet i'r Strategaeth Parth Cyhoeddus ddrafft a'r Cynllun Gwella cysylltiedig (ynghlwm wrth yr adroddiad) yn amlinellu'r ffordd yr oedd y Cyngor yn bwriadu delio â materion sy'n effeithio ar y parth cyhoeddus o fewn y sir.

Roedd y Strategaeth wedi'i chynhyrchu er mwyn datblygu eglurder a chydlyniaeth, sicrhau gwell cydweithio a dull mwy corfforaethol o ymdrin â materion y parth cyhoeddus fel yr argymhellwyd mewn adroddiad Archwiliad Mewnol diweddar. Wrth hyrwyddo'r Strategaeth ymhelaethodd y Cynghorydd Smith ar y pedair egwyddor strategol a oedd wedi'u hymgorffori yn y ddogfen.

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts drosolwg o'r ddadl craffu ar y Strategaeth yn cadarnhau bod y pwyllgor wedi bod yn hapus i gymeradwyo'r Strategaeth yn amodol ar gynnwys cyfeiriadau at ddiwylliant y Cyngor; pwysigrwydd ymgynghori ac ymagwedd gydlynol ac ar y cyd ynghyd â nodau ac amcanion allweddol a nodwyd.

Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad a thrafodwyd y materion canlynol -

- codwyd cyfrifoldeb am gynnal a chadw mannau chwarae a mynegodd y Cynghorydd Huw Jones bryderon bod arwyddion y Cyngor Sir wedi eu lleoli mewn rhai meysydd chwarae lle nad oeddent yn gyfrifol amdanynt a all olygu goblygiadau o ran atebolrwydd - gofynnodd i'r mater hwn gael ei archwilio ymhellach a bod y rhai sy'n atebol dros gynnal meysydd chwarae yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cynnal a chadw a diogelwch offer chwarae. Rhoddodd y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (HHES) sicrwydd y cynhelir archwiliadau mewn meysydd chwarae a bod y rhai sy'n atebol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau drwy'r broses honno. Cytunodd i adrodd yn ôl ar y nifer o feysydd chwarae o fewn y sir a'r rhai sy'n gyfrifol amdanynt. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cwsmeriaid i gysylltu â chynghorau tref/cymuned ar y mater er mwyn egluro unrhyw gamddealltwriaeth a allai fodoli
- Bwriedir datblygu polisi a gweithdrefnau tipio anghyfreithlon yn ystod 2014/15 er mwyn rheoli'r mater
- Amlygodd y Cynghorydd Barbara Smith nifer o faterion a godwyd yn y Cynllun Corfforaethol Chwarter 2 sy'n ymwneud â'r parth cyhoeddus a gofynnodd yn benodol i dipio anghyfreithlon gael ei gynnwys fel gweithgaredd gwella penodol o fewn y ddogfen. Nodwyd y byddai'r Pwyllgor Craffu Cymunedau'n craffu ar reolaeth tipio anghyfreithlon yn eu cyfarfod nesaf
- mewn ymateb i fater a godwyd gan y Cynghorydd Bobby Feeley dywedodd yr HHES am y broses dendro a dyfarnu contract ar gyfer cyflenwi basgedi crog i Ganolfan Arddio Aberchwiler
- Amlygodd yr Arweinydd bwysigrwydd datblygu cyswllt gyda chynlluniau tref ac ardal yn fuan o fewn y strategaeth a chadarnhaodd HHES bod llawer o'r cynlluniau hynny eisoes yn cynnwys nifer o gamau ar y parth cyhoeddus
- mewn cysylltiad â'r Archwiliad o Arwyddion Strydoedd dywedodd y Cynghorydd Huw Jones am waith y Fforwm Dwyieithrwydd er mwyn bwrw ymlaen â'r mater iaith
- Amlygodd y Cynghorydd Joan Butterfield fasnachu blaengwrt fel mater yng Nghanol Tref Y Rhyl a gofynnodd iddo gael ei gynnwys yn y Strategaeth. Cadarnhaodd y Cynghorydd David Smith ei fod hefyd yn fater gorfodi i swyddogion ei ymchwilio.

Croesawodd yr Aelodau'r strategaeth er mwyn darparu ymagwedd gydlynol a chydgysylltiedig i faterion y parth cyhoeddus a chan ystyried sylwadau a wnaed -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a)* *cymeradwyo Strategaeth y Parth Cyhoeddus drafft a'r Cynllun Gwella yn amodol ar gynnwys mwy o fanylion am weithgareddau gwella o safbwynt tipio anghyfreithlon a masnachu blaengwrt yn y Cynllun Gwella, a*

(b) *chytuno i adolygiad o'r Cynllun Gwella'n flynyddol, gyda diweddariadau ar gynnydd drwy'r broses Herio Gwasanaeth ar gyfer y gwasanaethau perthnasol, a chyda chyfranogiad yr Aelod Arweiniol.*

**7 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL (CHWARTER 2 2013/14)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Barbara Smith yr adroddiad yn diweddaru'r Cabinet ar y gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 2 2013/14. Roedd yr adroddiad yn crynhoi pob canlyniad yn y Cynllun Corfforaethol ac agweddau perfformiad allweddol. Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad yn dangos cynnydd derbyniol o ran cyflawni'r Cynllun.

Roedd y Pwyllgor Craffu Perfformiad wedi ystyried yr adroddiad a rhoddodd y Cynghorydd Smith drosolwg o'r ddadl craffu gan dynnu sylw at nifer o bryderon ac argymhellion. Hefyd pwysleisiodd pa mor bwysig yw sicrhau bod data gwasanaeth ar gael ar y cyfle cyntaf er mwyn cynhyrchu canlyniadau mesuradwy. Ailadroddodd y Cynghorydd David Simmons, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad prif bryderon y pwyllgor a oedd yn ymwneud â -

- chanran y gwerthusiadau perfformiad a gwblhawyd
- y defnydd o ystafelloedd dosbarth symudol ar draws y sir
- y ffigurau incwm canolrifol a ddefnyddir i gyfrifo amddifadedd

Nodwyd y byddai adroddiadau ar y defnydd o ystafelloedd dosbarth symudol a thipio anghyfreithlon yn cael eu hystyried gan y pwyllgor archwilio ym mis Ionawr a byddai hefyd yn monitro canran y gwerthusiadau perfformiad a gwblhawyd. Mewn ymateb i'r materion a godwyd a'r cwestiynau a ofynnwyd gan aelodau yn ystod y drafodaeth a ddilynodd derbyniwyd yr ymatebion canlynol -

- roedd y ffigurau diweddaraf oedd ar gael wedi eu defnyddio i gyfrifo dangosyddion ar gyfer mynd i'r afael ag amddifadedd a thlodi a chydnabuwyd ers hynny bod ffigyrau mwy cyfoes wedi eu cyhoeddi
- gall perfformiad gwael ar gyfer cwblhau gwerthusiadau fod yn rhannol o ganlyniad i fecanweithiau cofnodi ac roedd gwaith yn parhau i fynd i'r afael â'r mater hwn
- roedd tipio anghyfreithlon wedi'i nodi fel mater oherwydd bod achosion wedi'u cofnodi yn wahanol i gynghorau eraill - roedd y rhan fwyaf o achosion yn ymwneud â gwastraff masnach na chafodd ei dderbyn yn y canolfannau ailgylchu
- roedd canlyniad y gyfran o'r boblogaeth oedolion oedd yn methu byw yn annibynnol o ganlyniad i fater hanesyddol yn ymwneud â deddfwriaeth budd-daliadau
- roedd allyriadau carbon wedi lleihau i'r fath lefel nad oedd angen i'r cyngor fod yn rhan o'r cynllun tariff ac roedd y gwariant ar gostau ynni yn awgrymu bod y lefelau wedi cael sylw – byddai mesurau newydd ar gyfer allyriadau carbon yn cael eu cyflwyno'n fuan er mwyn mesur llwyddiant
- roedd y Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi cytuno ar gynllun busnes er mwyn mynd i'r afael â dibynadwyedd signal digidol/symudol a dderbynnir mewn adeiladau

- Cynhaliwyd adolygiad o gerbydau fflyd yn ddiweddar ac roedd maint a nifer y cerbydau wedi lleihau gan greu arbedion o tua £250m.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod cynnydd cyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn ôl y disgwyl ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn a thynnodd sylw'r aelodau at y canlynol -

- y canlyniad rhagorol yn gyffredinol o ran galluogi pobl ddiamddiffyn i fyw'n annibynnol yn Sir Ddinbych
- byddai cwblhau gwerthusiadau perfformiad yn derbyn sylw fel blaenoriaeth
- roedd dangosyddion penodol ar gyfer Addysg a Ffyrdd yn achosi rhywfaint o bryder a byddai angen ymchwilio a herio pellach.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol.*

Yn y fan hon (11.45 am) torrodd y cyfarfod am egwyl lluniaeth.

## 8 ADNEWYDDU CONTRACT – MATRICS

Cyflwynodd y Cynghorydd Barbara Smith yr adroddiad yn ceisio cefnogaeth y Cabinet i adnewyddu'r contract presennol gyda Matrix SCM, drwy fframwaith MSTAR, ar gyfer rheoli gweithwyr asiantaeth y Cyngor a thrwy hynny'n gwella rheolaeth, diogelu a gwelededd, yn ogystal â sicrhau arbedion effeithlonrwydd.

Roedd y contract yn rhan o gytundeb ar y cyd ag awdurdodau lleol Sir y Fflint a Wrecsam. Oherwydd gwerth y contract roedd angen derbyn cymeradwyaeth y Cabinet i symud ymlaen. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r argymhelliad oherwydd ei fod yn cynnwys adnewyddu contract presennol. Mewn ymateb i gwestiynau dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol am y broses o fonitro'r contract a rhoddodd fwy o fanylion am yr arbedion ers iddynt ddefnyddio Matrics SCM.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno i adnewyddu'r Contract Matrics drwy fframwaith MSTAR.*

## 9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn manylu'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllideb a gytunwyd. Darparodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- rhagwelwyd tanwariant o £656m ar draws cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- roedd 72% o arbedion y cytunwyd arnynt wedi eu cyflawni hyd yma (targed £3.061m)
- tynnodd sylw at amrywiannau allweddol mewn cyllidebau neu dargedau arbedion sy'n ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol
- roedd symudiad cadarnhaol o £45m ar weddillion ysgolion a ddygwyd ymlaen o 2012/13
- rhoddodd ddiweddariad cyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai.

Tynnodd yr Arweinydd sylw'r aelodau at yr elfen Cynllun Corfforaethol yn y Cynllun Cyfalaf yn rhoi manylion prosiectau ar gyfer gwariant cyfalaf, gan gynnwys ysgolion.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb a gytunwyd.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried. Nododd y Cabinet y byddai adroddiad ar y Cynlluniau Tref ac Ardal yn cael ei gyflwyno ym mis Ionawr ac y byddai adroddiad ar y Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion yn cael ei gyflwyno ym mis Chwefror. Nodwyd hefyd y gall yr adroddiad ar Hamdden Clwyd a drefnwyd ar gyfer Ionawr fod yn hwyr.

***PENDERFYNWYD*** *bod Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet yn cael ei nodi.*

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *o dan Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 11 DYFARNU CONTRACT AR GYFER GWAREDU GWASTRAFF GWEDDILLIOL

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith yr adroddiad cyfrinachol yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contractau ar gyfer gwaredu gwastraff gweddilliol a gesglir. Roedd gwybodaeth am y broses dendro, ynghyd â'r rhesymau y tu ôl i'r argymhellion i rannu'r gwaith rhwng dau gynigydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Roedd angen cymeradwyaeth y Cabinet gan fod y contract yn fwy nag £1m.

Trafododd y Cabinet fanylion y contract gyda swyddogion a eglurodd faterion penodol mewn ymateb i gwestiynau ar hynny. Nododd yr aelodau fanteision dyfarnu dau gontract ar gyfer gwaredu gwastraff gweddilliol a -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo dyfarnu dau gontract i'r contractwyr a enwir fel y manylir yn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25pm